

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1049 (Cy. 235)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15)
(Bro Morgannwg, Castell-nedd Port
Talbot a Thorfaen) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiad yn dynodi bwrdeistrefi sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1049 (Cy. 235)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15)
(Bro Morgannwg, Castell-nedd Port
Talbot a Thorfaen) 2020**

Gwnaed am 12.31 p.m. ar 28 Medi 2020

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru

am 4.00 p.m. ar 28 Medi 2020

Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 28 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 28 Medi 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

- “(j) Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
- (k) Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- (l) Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.”

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 12.31 p.m. ar 28 Medi 2020

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229), O.S. 2020/1040 (Cy. 230) ac O.S. 2020/1043 (Cy. 232).